# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mercher, 8 Chwefror 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie (Is-Gadeirydd), Meirick Davies, Stuart Davies, Huw Hilditch-Roberts, Alan James, Alice Jones, Pat Jones, Barry Mellor, Dewi Owens, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Huw Williams a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Datblygu (PM), Prif Swyddog Cynllunio (IW) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rhys Hughes, Hugh Irving, Bob Murray, David Simmons a/ac Bill Tasker

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 PENODI CADEIRYDD

Yn dilyn marwolaeth drist y Cynghorydd Raymond Bartley, gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am weddill blwyddyn y cyngor.

Cynigiwyd y Cynghorydd David Simmons gan y Cynghorydd Joan Butterfield, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

Cynigiwyd y Cynghorydd Joe Welch gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dewi Owens.

Cynhaliwyd pleidlais ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

David Simmons – 9
Joe Welch – 13
Ymatal - 1

Felly:

***PENDERFYNWYD** Penodi'r Cynghorydd Joe Welch yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer gweddill blwyddyn y cyngor.*

Ar y pwynt hwn, diolchodd yr Aelodau i'r Cynghorydd Bill Cowie, Is-Gadeirydd, am ei Gadeirio rhagorol yn ystod y cyfnod anodd diweddar.

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2017.

Holodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies pam nad oedd y bleidlais wedi'i chynnwys yng nghofnod eitem 12. Eglurodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei fod wedi bod yn bleidlais unfrydol drwy godi dwylo fel y nodwyd yn y cofnodion.

***PENDERFYNWYD –**yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2017 fel cofnod cywir.*

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 6 - 7)**

Cyflwynwyd ceisiadau oedd yn ceisio penderfyniad y pwyllgor ynghyd â'r dogfennau cysylltiol. Cyfeiriwyd hefyd at wybodaeth ategol a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen a oedd yn ymwneud â cheisiadau penodol.

**6 CAIS RHIF 03/2016/1195/PO - TIR YN (RHAN O ARDD) FAIRLAWNS, FRON BACHE, LLANGOLLEN**

Roedd cais wedi ei gyflwyno i ddatblygu 0.07ha o dir trwy godi un annedd (cais amlinellol – pob mater wedi'u cadw yn ôl) ar dir yn (rhan o ardd) Fairlawns, Fron Bache, Llangollen.

**Trafodaeth Gyffredinol -** Nododd y Cynghorydd Stuart Davies **(Aelod Lleol)** fod Cyngor Tref Llangollen wedi codi materion yn ymwneud â'r cais ond fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar hyn yn flaenorol ac nad oedd y cais wedi newid.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Stuart Davies argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Cowie.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 22
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad.*

**7 CAIS RHIF 41/2016/1113/PS - THE OLD CREAMERY, FFORDD YR WYDDGRUG, BODFARI, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais i amrywio amodau 2 a 3 caniatâd cynllunio rhif 41/2000/1065/PC, i ganiatáu ar gyfer defnydd Dosbarth B2 yr adeilad i gyfarwyddo ar gyfer gweithrediadau ac eithrio Mr. D. R. Parsonage, a chynnal gweithrediadau atodol i ddefnydd yr adeilad ar dir o amgylch yr adeilad (cais ôl-weithredol) yn The Old Creamery, Ffordd Yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych.

**Trafodaeth Gyffredinol -** Rhoddodd y Cynghorydd Merfyn Parry hanes byr y safle. Eglurwyd hefyd fod perchnogaeth y safle wedi newid ers i'r caniatâd cynllunio gwreiddiol gael ei roi yn 2001. Roedd yr ymgeisydd wedi bod yn awyddus i sicrhau lle storio digonol ar gyfer cerbydau. Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd y dylid dileu amod 4 yn llwyr a chynnal y 3 amod.

**Cynnig –** Cynigiodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y dylid dileu amod 4 yn llwyr o'r cais, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Cowie.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO (heb Amod 4) - 22
GWRTHOD - 1
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn amodau 1, 2 a 3 yr adroddiad, ond gan ddileu amod 4 fel y geiriwyd yn yr adroddiad a'r taflenni gwybodaeth hwyr o ran y tir rhwng yr adeiladau a ffin yr A541.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.08 a.m.**